# COVID-19 Update: 29th May

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council, covering: a reminder of all the waste and recycling arrangements for the next few days and weeks; reaction to today's Welsh Government changes to lockdown; and our Youth Mentors are finding new ways to support young people.

## Reminder of waste and recycling arrangements for the next few days and weeks

### Last of the May Saturday Garden Waste collections

The residents of Rhiwbina, Llanishen, Lisvane, Heath and Whitchurch will receive their garden waste collection tomorrow, Saturday 30th May. This is the last phase of the one-off green garden waste collections provided during May.

### Saturday Garden Waste collections extended

The council has recently announced that the one-off collections for garden waste will now be extended into June and the first week of July, with every household in the city receiving a further Saturday collection.

Click here to read more:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23973.html

### General Waste, Recycling and Food Waste collections back to normal from Monday

From Monday 1st June, weekly kerbside collections for recyclables and food waste will return to normal service and residents are being reminded to put the correct items in the containers provided so the council can recycle and compost as much waste as possible.

This means that residents are being asked to begin using their brown kerbside food caddies again from Monday, and to make sure all their recyclables go into their green bags for collection.

Cardiff's recycling sorting facility, which is where the city's green bags are sorted and processed for recycling, is being re-opened which means that recyclable waste will no longer be sent to an energy recovery facility.

This measure was only put in place to protect our staff and the public during the council's response to the COVID-19 pandemic.

Waste collected in the black bin or red striped bags will now go back to being collected once every fortnight and residents are reminded that any side waste will not be collected.

A list of questions and answers have been provided on the changes to kerbside collections which can be read here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23899.html

**Bulky Waste collections**
From Monday, residents will be able to book a bulky waste collection service by calling the C2C contact centre on 02920 872087. Alternatively any bulky collections which are free of charge can be booked through the council's social media channels.

Appointments will start from 8th June onwards and residents are being reminded to be patient, as it is expected there will be a high demand for this service.

**Recycling Centres**
Bessemer Close Recycling Centre has been open on an appointment only basis for specific types of waste since Tuesday, May 26th. Lamby Way Recycling Centre is also re-opening on the same terms from this Sunday, March 31st.

New rules have been out in place at Cardiff's recycling centres to ensure social distancing requirements can be followed.

More information on what you can bring to the recycling centres and the new rules that are in place is available here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23932.html

**Reaction to today's Welsh Government changes to lockdown**

Council leaders have today welcomed the First Minister's cautious approach in taking modest steps to gradually ease the lockdown in Wales.

From Monday, individuals from separate households within the same locality will be able to meet outside whilst maintaining the 2-metre social distancing rule.

All residents in Wales will be required to observe the new guidance set out by Welsh Government.

Read more here:
http://www.wlga.wales/covid-response-a-marathon-not-a-sprint

**Cardiff Youth Service Post 16 Youth Mentors find new ways of supporting young people**

Post 16 Youth Mentors are working hard supporting young people, despite the Covid-19 lock down restrictions that prevent them from working in direct contact with their clients.

All of the team continue to maintain contact with their individual clients offering support such as advocacy and brokerage, with a priority focus on the most vulnerable. Emergency food parcels have been distributed by the team in conjunction with routine welfare checks.

One of our Mentors has been working in conjunction with Grassroots to produce informative cookery videos. The videos which can be found on YouTube (link below)

has been teaching young people how to produce tasty, nutritious and affordable meals.

Regular contact has also been maintained with the young parents who form part of the Babyroots project, which increases young parents wellbeing, promotes parent-child interaction, reduces isolation and creates pathways into education, employment, training & volunteering. They are all looking forward to returning to the provision when things get back to normal and it opens once again.

https://www.youtube.com/channel/UCGOUjc1asziIvYT-q8Mjdnw

https://www.facebook.com/CardiffYouthService

## Diweddariad COVID-19: 29 Mai

Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: y diweddaraf am wasanaethau gwastraff ac ailgylchu yng Nghaerdydd; newidiadau i’r cyfyngiadau symud; a mentoriaid Ieuenctid Ôl-16 Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn canfod ffyrdd newydd o gefnogi pobl ifanc.

**Y diweddaraf am wasanaethau gwastraff ac ailgylchu yng Nghaerdydd**

**Olaf y casgliadau gwastraff gardd gwyrdd untro a wnaed Mai**

Bydd trigolion Rhiwbeina, Llanisien, Llys-faen, y Mynydd Bychan a'r Eglwys Newydd yn derbyn eu casgliad gwastraff gardd ddydd Sadwrn (30 Mai) sef cam olaf y casgliadau gwastraff gardd gwyrdd untro a wnaed yn ystod mis Mai.

**Bydd casgliadau gwastraff gardd untro yn parhau ym mis Mehefin a'r wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf**

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd y casgliadau untro ar gyfer gwastraff gardd bellach yn cael eu hymestyn i fis Mehefin ac wythnos gyntaf mis Gorffennaf, gyda phob cartref yn y ddinas yn cael casgliad arall ar ddydd Sadwrn.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23974.html

**Newidiadau i gasgliadau gwastraff oddi ar ymyl y ffordd o 1 Mehefin**

O ddydd Llun 1 Mehefin, bydd casgliadau wythnosol wrth garreg y drws ar gyfer deunydd ailgylchadwy a gwastraff bwyd yn dychwelyd i'r gwasanaeth arferol, a dylai preswylwyr gofio i roi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir fel y gall y Cyngor ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl.

Gofynnir i breswylwyr ddechrau defnyddio eu cadis bwyd brown ar ymyl y ffordd unwaith eto o ddydd Llun, a gwneud yn siŵr bod eu holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn mynd i mewn i'w bagiau gwyrdd i'w casglu.

Mae cyfleuster didoli ailgylchu Caerdydd, lle caiff bagiau gwyrdd y ddinas eu didoli a'u prosesu i'w hailgylchu, yn cael eu hailagor sy'n golygu na fydd gwastraff ailgylchadwy yn cael ei anfon i gyfleuster adfer ynni mwyach.

Rhoddwyd y mesur hwn ar waith er mwyn diogelu ein staff a'r cyhoedd yn ystod ymateb y Cyngor i'r pandemig COVID-19.

Bydd gwastraff a gesglir yn y biniau du neu fagiau streipiau coch yn awr yn mynd yn ôl i gael ei gasglu unwaith bob pythefnos a dylai preswylwyr gofio na fydd unrhyw wastraff ochr yn cael ei gasglu.

Mae rhestr o gwestiynau ac atebion ar y newidiadau i gasgliadau ymyl y ffordd yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23900.html

**Casglu eitemau swmpus**
O ddydd Llun, bydd preswylwyr yn gallu archebu gwasanaeth casglu gwastraff swmpus drwy ffonio canolfan gyswllt C2C ar 02920 872088. Fel arall, gellir archebu unrhyw gasgliadau swmpus am ddim drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Bydd apwyntiadau'n dechrau ar 8 Mehefin ac mae trigolion yn cael eu hatgoffa i fod yn amyneddgar, gan y disgwylir y bydd galw mawr am y gwasanaeth hwn.

**Canolfannau Ailgylchu**
Mae Canolfan Ailgylchu Bessemer Close wedi bod ar agor drwy apwyntiad yn unig ar gyfer mathau penodol o wastraff ers dydd Mawrth, 26 Mai. Mae Canolfan Ailgylchu Ffordd Lamby hefyd yn ailagor yn yr un modd o ddydd Sul, 31 Mawrth 31.

Mae rheolau newydd wedi bod ar waith yng nghanolfannau ailgylchu Caerdydd i sicrhau y gellir dilyn gofynion ymbellhau cymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwch fynd ag ef i'r canolfannau ailgylchu a'r rheolau newydd sydd ar waith yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23933.html

**Newidiadau i'r cyfyngiadau symud**

Mae arweinwyr cyngor heddiw wedi croesawu agwedd pwyllog y Prif Weinidog heddiw wrth gymryd camau cymedrol i leddfu'r clo yng Nghymru yn araf bach.

O ddydd Llun ymlaen, bydd pobl o ddau gartref gwahanol yn yr un ardal leol yn gallu cwrdd tu allan tra'n cynnal y rheol o aros 2 fedr ar wahân.

Bydd yn rhaid i bawb yng Nghymru gydymffurfio â'r canllawiau newydd sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

Darllenwch fwy yma:
https://www.wlga.cymru/covid-response-a-marathon-not-a-sprint

**Mentoriaid Ieuenctid Ôl-16 Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn canfod ffyrdd newydd o gefnogi pobl ifanc**

Mae Mentoriaid Ieuenctid Ôl-16 yn gweithio'n galed yn cefnogi pobl ifanc, er gwaethaf cyfyngiadau cloi 'Covid-19' sy'n eu hatal rhag gweithio mewn cyswllt uniongyrchol â'u cleientiaid.

Mae pob yn y tîm yn parhau i gadw mewn cyswllt â'u cleientiaid unigol gan gynnig cymorth fel eiriolaeth a broceriaeth, gan roi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae'r tîm wedi dosbarthu parseli bwyd argyfwng tra'n cynnal yr archwiliadau lles arferol.

Mae un o'n Mentoriaid wedi bod yn gweithio ar y cyd â Grassroots i gynhyrchu fideos coginio llawn gwybodaeth. Mae'r fideos sydd i'w gweld ar YouTube (**dolen isod**) wedi bod yn dysgu pobl ifanc sut i gynhyrchu prydau blasus, maethlon a fforddiadwy.

Mae cyswllt rheolaidd wedi'i gynnal hefyd â'r rhieni ifanc sy'n rhan o'r prosiect Babyroots, sy'n cynyddu llesiant rhieni ifanc, yn hyrwyddo rhyngweithio rhwng rhieni a phlant, yn lleihau unigedd ac yn creu llwybrau i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli. Maent i gyd yn edrych ymlaen at ddychwelyd at y ddarpariaeth pan fydd pethau'n mynd yn ôl i'r arfer ac y bydd yn agor unwaith eto.

https://www.youtube.com/channel/UCGOUjc1asziIvYT-q8Mjdnw

https://www.facebook.com/CardiffYouthService